



DYFED ARCHAEOLOGICAL TRUST NEWSLETTER WINTER 2013-14

NEWYDDLLEN GAEAF 2013-14 YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED



ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust

www.dyfedarchaeology.org.uk
www.archaeolegdyfed.org.uk

Dyfed Archaeological Trust is an independent organisation dedicated to the effective protection, investigation, recording and promotion of the historic environment.

Dyfed has a highly motivated professional workforce with a wide range of skills and experience. This is complemented by long established contacts and partnerships with external specialists enabling Dyfed to offer extensive consultancy and other archaeological services.

The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo,
Carmarthenshire SA19 6AF

01558 823121

Email Sarah Rees — s.rees@dyfedarchaeology.org.uk

(Limited Company No. 1198990—Registered Charity No. 504616)

www.dyfedarchaeology.org.uk

Production of this
newsletter was grant-
aided by Cadw



Cynhyrchwyd y
newyddlen hon gyda
chymorth grant gan
Cadw

Cover: screen shots of the
Archwilio mobile phone
app

Cover: screen shots of the
Archwilio mobile phone
app

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw corff annibynnol sy'n ymroi i ddiogelu,
ymchwilio, cofnodi a hybu'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol.

Mae gan Dyfed weithlu proffesiynol ac uchel eu cymhelliant syd ag amrywiaeth mawr
o sgiliau o phrofiad. Ategir hynny â chysylltiadau a phartneriaethau—sy'n bod ers
tro byd—ag arbenigwyr allanol sy's fodd i Dyfed gynnig gwasanaethau ymgynhori a
gwasanaethau archaeolegol eraill.

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,

Sir Gaerfyrddin SA19 6AF

01558 823121

Ebost Sarah Rees – s.rees@dyfedarchaeology.org.uk

(Cwmni Cyfyngedig 1198990 - Elusen

Gofrestredig 504616)

www.archaeolegdyfed.org.uk

An app for the archaeology of Wales

John Griffiths, Welsh Government Minister for Culture and Sport, launched the Archwilio mobile phone app on 7th November 2013 at the National Museum Wales, Cardiff. CEMAS of the University of South Wales developed the app on behalf of the Trust. The app gives access to all the records of archaeological sites held by the four Welsh archaeological trusts. Not only can you view the records in the field on your mobile phone, but you can add information and take photographs of sites to add to the record. The app is only available for android phones. It can be downloaded free of charge by searching for 'Archwilio' on the Google Play Store.



Staff of the four Welsh Archaeological Trusts and CEMAS at the launch of the app.


Staff pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru a CEMAS yn lansiad yr app.

App ar gyfer archaeoleg Cymru

Lansiodd John Griffiths, sef Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru app o'r enw Archwilio ar gyfer ffonau symudol ar 7 Tachwedd 2013 yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd. Datblygodd CEMAS, o Brifysgol De Cymru, yr app ar ran yr Ymddiriedolaeth. Mae'r app yn rhoi mynediad at holl gofnodion y safleoedd archaeolegol sydd gan bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru. Gallwch weld nid yn unig y cofnodion yn y maes ar eich ffôn symudol, gallwch hefyd ychwanegu gwybodaeth a thynnu ffotograffau o safleoedd i'w hychwanegu at y cofnod. Mae'r app ar gael ar gyfer ffonau android yn unig. Gellir ei lawrlwytho yn rhad ac am ddim drwy chwilio am 'Archwilio' yn Google Play Store.

A Roman fort in Pembrokeshire

There are many Roman forts in Wales, but until the summer of 2013 none had been identified in Pembrokeshire. Archaeologists were of the opinion that the Romans conquered Pembrokeshire with a light military touch, and hence there was no need for forts. This opinion has now changed with the Trust's discovery of a substantial fort at Wiston. A 2012 geophysical survey first raised the possibility of a fort. It was confirmed during small-scale excavations in 2013. As with all archaeological discoveries more questions arise: where is the bath house and civil settlement, and now we have one fort in Pembrokeshire, where are the others?



Plan of the fort. Features shown in red were detected in the geophysical survey. The location of the 2013 excavation trenches are shown in black.

Cynllun y gaer. Cafodd y nodweddion a ddangosir mewn coch eu canfod yn ystod yr arolwg geoffisegol. Dangosir lleoliad ffosydd cloddfa 2013 mewn du.



Top: Volunteers beginning to uncover a section of Roman road in the fort.
Bottom: photograph showing the very good preservation of the road.

Ar y brig: Gwirfoddolwyr yn dechrau dadorchuddio darn o ffordd Rufeinig yn y gaer. Ar y gwaelod: ffotograff sy'n dangos bod y ffordd wedi'i chadw'n dda iawn.

Caer Rufeinig yn Sir Benfro

Mae llawer o gaerau Rhufeinig yng Nghymru ond tan haf 2013 nid oedd unrhyw un wedi'i hadnabod yn Sir Benfro. Roedd Archaeolegwyr o'r farn bod y Rhufeiniaid wedi gorchfygu Sir Benfro heb lawer o ymglymiad milwrol, ac felly nid oedd angen caerau. Mae'r farn hon bellach wedi newid wrth i'r Ymddiriedolaeth ddarganfod caer sylweddol yng Nghas-wis. Cododd arolwg geoffisegol yn 2012 y posibilrwydd o gaer yn gyntaf. Cadarnhawyd hynny yn ystod cloddfeydd ar raddfa fach yn 2013. Fel sy'n wir yn achos pob darganfyddiad archaeolegol, mae rhagor o gwestiynau'n codi: ble mae'r baddondy a'r anheddiad dinesig, a gan fod gennym un gaer yn Sir Benfro, ble mae'r gweddill?

An Early Medieval cemetery and Iron Age settlement at Crugiau Cemmaes

Investigations over the past couple of years have started to reveal the complex archaeological remains surrounding the burial mounds at Crugiau Cemmaes in Pembrokeshire. More exciting discoveries were made during the autumn of 2013. Excavation in one trench revealed the substantial defensive ditches and entrance to an Iron Age defended settlement. Most unusually for this late prehistoric period was the discovery of artefacts, including several spindle whorls used in the spinning of wool. Several centuries after the abandonment of the Iron Age settlement, the site was used as a cemetery. Owing to the acid soils, no skeletons survive, but the style of burial suggests an Early Medieval date. Similar sites elsewhere in Wales have been dated to the 4th to 8th centuries AD.

Crugiau Cemmaes – the Iron Age.
Decorated spindle whorls, and the
defence ditches under excavation and
fully excavated.

Crugiau Cemmaes – yr Oes Haearn. Sidelli
wedi'u haddurno, a'r dyfrffosydd yn cael
eu cloddio ac wedi'u cloddio'n llawn.





Crugiau Cemmaes – Early Medieval.
 Left: the outline of a grave within a square ditched enclosure can just be made out. Above: the grave and enclosure under excavation. Below the partially excavated grave.

Crugiau Cemaes – Yr Oesoedd Canol Cynnar.
 Uchod: prin y gellir gweld amlinelliad bedd o fewn lloc ffosog sgwâr. I'r dde: y bedd a'r lloc yn cael eu cloddio. Isod, y bedd wedi'i gloddio'n rhannol.



Mynwent o'r Oesoedd Canol Cynnar ac anheddiad o'r Oes Haearn yng Nghrugiau Cemaes

Mae ymchwiliadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi dechrau datgelu'r gweddillion archaeolegol cymhleth sydd o amgylch y tomenni claddu yng Nghrugiau Cemaes yn Sir Benfro. Gwnaed rhagor o ddarganfyddiadau cyffrous yn ystod hydref 2013. Datgelodd cloddio mewn un ffos y dyfrffosydd amddiffynnol sylweddol a'r fynedfa i anheddiad amddiffynedig o'r Oes Haearn. Rhywbeth bur anarferol ar gyfer y cyfnod cynhanesyddol hwyr hwn oedd darganfod arteffactau, gan gynnwys nifer o sidelli a ddefnyddiwyd i nyddu gwlan. Sawl canrif ar ôl gadael yr anheddiad o'r Oes Haearn, cafodd y safle ei defnyddio fel mynwent. Oherwydd y pridd asidig, nid yw sgerbydau wedi goroesi, ond mae arddull y claddu'n awgrymu dyddiad yn yr Oesoedd Canol Cynnar. Cafodd safleoedd tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru eu dyddio yn ôl i'r 4edd ganrif a'r 8fed ganrif OC.



CEREDIGION ARCHAEOLOGICAL DAY SCHOOL

The Dyfed Archaeological Trust are hosting an event for everyone interested in Ceredigion's past

Saturday 1st March 2014 at the Morlan Centre, Aberystwyth

10 a.m. - 4.30 p.m.

A day of presentations, exhibitions and discussions on the results of recent archaeological research and investigations in Ceredigion.

£4 to include tea, coffee and biscuits

Book early to avoid disappointment

Contact: Sarah Rees, Community Archaeologist

Tel. 01558 825993

s.rees@dyfedarchaeology.org.uk

YSGOL UNDYDD ARCHAEOLEGOL CEREDIGION

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn cynnal digwyddiad i bawb sydd â diddordeb mewn gorffennol Ceredigion

Dydd Sadwrn 1 Mawrth 2014 yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth

10 a.m. - 4.30 p.m.

Diwrnod o gyflwyniadau, arddangosfeydd a thrafodaethau ar ganlyniadau ymchwil ac ymchwiliadau archaeolegol diweddar yng Ngheredigion.

Archebwch yn gynnar er mwyn osgoi cael eich siomi

£4 sy'n cynnwys te, coffi a bisgedi

Cysylltwch â: - Sarah Rees, Archaeolegydd Cymunedol

Ffôn 01558 825993

s.rees@dyfedarchaeology.org.uk

**Dyfed Archaeological Trust is now
on Facebook and Twitter.**

Like us on Facebook; Search for **Dyfed
Archaeology**

Follow us on Twitter; Search for
@DyfedArch



**Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Dyfed ar Facebook a Twitter yn awr.**

Hoffwch ni ar Facebook; Chwiliwch am
Dyfed Archaeology

Dilynwch ni ar Twitter; Chwiliwch am
@DyfedArch

